153 *Pa Fath o Deimlad Yw?*

(Hebreaid 13:15)

1. Pa fath o deimlad yw
   bod yn Dyst Jehofa Dduw,
   A chael gwneud ein gorau glas
   i rannu geiriau'r gwir?
   Pa fath o deimlad gawn
   wrth ddefnyddio'n llais a'n dawn,
   Er mwyn ceisio cyrraedd calon
   sydd yn fwyn a phur?

(*CYTGAN*)
Mae'n deimlad grêt. Mae'n deimlad braf.
Mae'n fraint pregethu'r newydd da.
Rhown aberth moliant, a'n calonnau'n
llawn, a'n lleisiau'n llon.

2. Pa fath o deimlad gei,
   pa lawenydd a fwynhei,
   Wrth offrymu aberth moliant
   â'th wefusau di?
   "Diolch, ond na," medd rhai,
   a chlywn glec y drws yn cau.
   Ond yn llon ein calon,
   llawen yw ein hagwedd ni.

(*Cytgan*)

3. Pa fath o deimlad yw
cael cyhoeddi neges Duw,
A chael gwybod bod Jehofa
yn ein trystio ni?
Braint ac anrhydedd yw
dysgu'r gwir i ddynol-ryw.
Geiriau iach a geiriau
graslon a ddefnyddiwn ni.
(*Cytgan*)

(Gweler hefyd Act. 13:48; 1 Thes. 2:4; 1 Tim. 1:11.)

© 2016 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania